# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mercher, 16 Ionawr 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** G. Davies a D. Thomas

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr;
K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyol
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 3.30 pm- 3.40 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD KK YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL**

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl clorianu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o wasanaethau'r Gyfraith, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod. Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i K.K. i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos a'r asesiad o'r llwybr cerdded posibl o gyfeiriad cartref K.K. i'r ysgol ddynodedig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1 yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl oherwydd bod cyfeiriad cartref K.K. o fewn y pellter cerdded statudol i'r ysgol a ddynodwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a bod y llwybr cerdded yn addas yn ôl yr asesiad a wnaed yn unol â Meini Prawf Llywodraeth Cymru;**

**4.1 cynghori K.K. i ystyried gwneud cais am sedd wag ar gerbyd contract.**

| | |
|---|---|
| ______________________ | ________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |